# Newyddion Pensiynau Gwent

Cylchlythyr ar gyfer Aelodau Gweithredol a Gohiriedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) gyda Chronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

## Croeso gan y Rheolwr Pensiynau



Croeso i rifyn haf 2022 o Newyddion Pensiynau Gwent, ein cylchlythyr i roi'r newyddion diweddaraf i chi am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) a materion amserol eraill yn ymwneud â phensiynau.

Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys cyrchu eich datganiad budd blynyddol 2021/22, seiberddiogelwch, ymwybyddiaeth sgam pensiwn a chyfraddau a therfynau cyfraniadau ar gyfer 2022/23.

Cofion Gorau

*Jo Griffiths*

Joanne Griffiths
Rheolwr Pensiynau

## Cofrestru Fy Mhensiwn Arlein

Mae eich Datganiad Pensiwn ar gyfer 2021/22 a'r Cylchlythyr Blynyddol nawr ar gael ar eich cyfrif Fy Mhensiwn Arlein.

**Os nad ydych eto wedi cofrestru i weld eich cyfrif Fy Mhensiwn Arlein**

Ewch i'n gwefan www.gwentpensionfund.co.uk a chlicio ar y ddolen Fy Mhensiwn Arlein ar frig y sgrîn. Mae pedwar cam syml i gofrestru gyda fy Mhensiwn Arlein.

**Cam 1**

Cliciwch ar **Cofrestrwch ar gyfer Fy Mhensiwn**

**Cam 2**

Cliciwch ar **Cofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn**

**Cam 3**

Teipiwch eich **Cyfenw, Rhif Yswiriant Gwladol, Dyddiad Geni** a **Chyfeiriad Ebost** a chlicio ar **Cofrestrwch ar gyfer Fy Mhensiwn**

**Cam 4**

Os yw eich cyfeiriad ebost gennym ni yn ein cofnodion, byddwch yn derbyn ebost gyda dolen i glicio arni i gwblhau eich cofrestriad. Edrychwch yn eich ffolder sothach rhag ofn bod yr ebost wedi mynd yno.

Os nad yw eich cyfeiriad ebost gennym, **byddwn yn anfon allwedd actifadu atoch yn y post o fewn 3 – 5 diwrnod**

**Sut i weld eich Datganiad Pensiwn 2021/22**– pan fyddwch wedi mewngofnodi i'ch cyfrif Fy Mhensiwn Arlein.

Cliciwch ar y panel **Datganiad Budd-daliadau Blynyddol**. Bydd hwn wedyn yn dangos eich datganiad budd-daliadau pensiwn diweddaraf ar gyfer eich cyfrif pensiwn.

Gallwch weld canllaw i ddeall eich datganiad pensiwn dan **Dogfennau'r Cynllun** yn y panel **Dogfennau**

**Sut i weld eich Cylchlythyr Blynyddol** – pan fyddwch wedi mewngofnodi i'ch cyfrif Fy Mhensiwn Arlein

Cliciwch ar **Dogfennau'r Cynllun** yn y panel **Dogfennau.**

# Beth yw Seiberddiogelwch?



Seiberddiogelwch yw'r gweithgaredd o ddiogelu ein dyfeisiau fel ffonau clyfar, gliniaduron, cyfrifiaduron a rhwydweithiau cyfrifiadurol rhag cael eu heffeithio gan drosedd seiber a throseddwyr.

Mae hyn wedi dod yn fwy pwysig i ni fel cymdeithas gyda mwy o ddibyniaeth ar ddyfeisiau a'r rhyngrwyd i ni gwblhau gweithgareddau dydd i ddydd o fancio a siopa ar-lein at e-bost a chyfryngau cymdeithasol.

Mae'n bwysig i ni i gyd gymryd y camau cywir i ddiogelu ein data a dyfeisiau rhag cael eu dwyn neu eu difrodi gan droseddwyr.

**Defnyddio Cyfrineiriau**




Mae cyfrineiriau'n cynnig ffordd effeithiol o gadw rheolaeth o'ch data

**Arhoswch yn Gryf**
Gwnewch eich cyfrinair yngryf ac osgoi defnyddio cyfrineiriau cyffredin

**Gwnewch e'n Gofiadwy**
Gwnewch eich cyfrinair yn rhywbeth sy'n hawdd i chi gofio ond yn anodd i rywun arall ddyfalu.

**Cadwch e'n Ddiogel**
Defnyddio ap rheolwr cyfrinair i greu cyfrineiriau cryf a'u cadw'n ddiogel

**Beth os ydych chi'n credu bod rhywun wedi dwyn eich cyfrinar?**

· Mae'r Ganolfan Seiberddiogelwch Cenedlaethol (NCSC) yn awgrymu defnyddio'r wefan www.haveibeenpwned.com i weld a yw eich gwybodaeth wedi cael ei wneud yn gyhoeddus fel rhan o doramod data.

**Beth yw gwe-rwydo?**

Gwe-rwydo yw pan fo troseddwyr yn cysylltu ag unigolion trwy e-bost, ffôn neu neges destun gan esgus bod yn gwmni dilys i'ch twyllo chi i ddatgelu eich gwybodaeth bersonol iddyn nhw. Maen nhw'n ceisio gwneud i e-byst edrych yn ddilys ac maen nhw hyd yn oed yn clonio gwefannau go iawn i ennill eich hyder. Bydd troseddwyr yn danfon yr e-byst yma at filiynau o bobl yn y gobaith y byddwch chi'n clicio ar ddolenni drwg neu atodiadau i gyflwyno firysau i'ch cyfrifiadur.

Rydym wedi paratoi cyngor i chi wrth i chi ddelio ag e-byst amheus er mwyn ei wneud yn fwy anodd i chi gael eich targedu. Os ydych chi'n credu eich bod chi wedi cael eich targedu, gallwch fynd at wefan NCSC www.ncsc.gov.uk/phishing i ddysgu mwy.

Os ydych chi'n credu eich bod chi wedi cael eich targedu, gallwch fynd at wefan NCSC www.ncsc.gov.uk/phishing i ddysgu mwy.

Os ydych chi wedi colli arian dylech ddweud wrth Action Fraud am y drosedd. Gallwch ymweld er mwyn gwneud



www.actionfraud.police.uk

Ewch i wefan y **www.cyberaware.gov.uk** am awgrymiadau a mwy o wybodaeth am sut i amddiffyn eich hun rhag troseddwyr a sgamwyr

# sgamiau pensiwn
# Rhybudd gan Action Fraud i Ddiogelu'ch Pensiwn

**Byddwch yn ymwybodol o sgamiau er mwyn osgoi colli cynilion ar amrantiad.**




Gwthiad Cryfach i Drosglwyddiadau Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY)

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno rheolau newydd o Mehefin 1af 2022, felly fydd aelodau sydd yn dal CGYau gyda ni ac fydd yn eu ddefnyddio pan fyddynt yn ymddeoli o'r CPLIL yn cael cynnig apwyntiad gyda Pension Wise.

Mae Pension Wise gan MoneyHelper yn gwasanaeth diduedd ac am ddim gan y Llywodraeth. Mae hyn yn eich amddiffyn yn ymhellach drwy gwneud yn siŵr fedrych wneud penderfyniad gwybodus ynghylch eich pensiwn.

Os oes ganddych CGYau ac rydych yn ystyrio ymddeoli yn y dyfodol fuan, fedrwch chi cysylltu â ni i ddarganfod beth fydd rhaid i chi wneud. Fel arall, fyddwn yn gyrru'r gwybodaeth gyda'ch pecyn ymddeoliad.

Ymwelwch â gwefan Pension Wise gan MoneyHelper am fwy o wybodaeth am eu gwasanaeth:
www.moneyhelper.org.uk/en/pensions-and-retirement/pension-wise

## Cyfraddau Cyfraniadau 2022/23

| Cyflog Blynyddol | Cyfraniad | |
|---|---|---|
| | Prif Adran | Adran 50/50 |
| Hyd at £15,000 | 5.5% | 2.75% |
| Dros £15,001 a hyd at £23,600 | 5.8% | 2.9% |
| Dros £23,601 a hyd at £38,300 | 6.5% | 3.25% |
| Dros £38,301 a hyd at £48,500 | 6.8% | 3.4% |
| Dros £48,501 a hyd at £67,900 | 8.5% | 4.25% |
| Dros £67,901 a hyd at £96,200 | 9.9% | 4.95% |
| Dros £96,201 a hyd at £113,400 | 10.5% | 5.25% |
| Dros £113,401 a hyd at £170,100 | 11.4% | 5.7% |
| Dros £170,101 | 12.5% | 6.25% |

### Codi uchafswm CPY

Mae'r mwyafswm o bensiwn blynyddol ychwanegol y gallwch ei brynu trwy CPYau wedi codi ar gyfer 2022/23 i £7,352.

### Cynnyddiad Oedran Pensiwn Isaf Wedi'w Gynllunio

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi bydd yr oed cynharaf â fyddech yn medru cymerud eich penswin yn codi o 55 oed i 57 o'r 6ed o Ebrill 2028. Nid fydd hyn yn berthnasol i ymddeoliadau oherwydd afiechyd.

## Menter Twyll Genedlaethol

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) ddyletswydd i ddiogelu'r arian yr ydym yn ei weinyddu. Mae hyn y cynnwys cymryd rhan ym Menter Twyll Cenedlaethol y Llywodraeth, ac efallai byddwn yn rhannu gwybodaeth gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at ddibenion atal a datgelu twyll.

Mae'r Fenter yn gweithredu o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i amddiffyn y pwrs cyhoeddus trwy gymharu data ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus, i atal a datgelu twyll.

Mae'r ymgyrch yn digwydd pob dwy flynedd. Ers i'r fenter gychwyn yn 1996 mae hi wedi helpu i ddatgelu £1.3 biliwn mewn twyll, camgymeriadau a gordaliadau ar draws y DU

Mae'r Fenter yn gweithredu o dan y '***Cod Arfer Cymharu Data***' er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r gyfraith, yn arbennig Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Gallwch ddarllen mwy am gymharu data a lawrlwytho'r Cod ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru: **http://www.audit.wales/cy/amdanom-ni/menter-twyll-genedlaethol**